


SP Energy Networks Cynllun Busnes 2015–2023

Crynodeb gweithredol

SP Distribution Ltd | SP Manweb plc

Gorffennaf 2013





Neges gan Frank Mitchell Prif Swyddog Gweithredol

Er mwyn gwireddu ein cynlluniau rydym wedi dysgu gan ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid, gan gadarnhau ein blaenoriaethau mwyaf fel eich cwmni rhwydwaith trydan rhanbarthol: Diogelwch, Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwerth am Arian.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar yr hanfodion sy'n bwysig i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ehangach. Mae hyn wedi arwain at gyflawni gwelliannau parhaus i'n gwasanaeth, contractau am gost is ac allbynnau cyflymach. Rydym ar y ffordd i gyflawni pob un o'n hymrwymiaidau ar gyfer 2010-15.

Erbyn 2023 rydym yn bwriadu arwain y diwydiant drwy barhau i lynu wrth ein gwerthoedd sylfaenol, sef bod yn:

- *Gwmni sy'n rhoi pwyslais ar wasanaeth cwsmeriaid y mae ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn ymddiried ynddo.*
- *Cwmni peirianyddol sy'n gofalu am ei asedau ac sy'n cyrraedd safonau rhyngwladol o ran diogelwch.*
- *Cwmni sy'n denu ac sy'n datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol o'r cymunedau a wasanaethir gennym.*

Mae diwydiant ynni'r DU yn wynebu'r cyfnod mwyaf cyffrous mewn hanner canrif. Mae gennym gyfle heb ei ail i chwarae rhan bwysig yn y cyfnod pontio yn y DU wrth i ynni carbon isel ddatblygu ac i helpu i lunio glasbrint y diwydiant am y 50 mlynedd nesaf.

Bydd yn rhaid i rwydwaith y dyfodol a'i ddefnyddwyr fabwysiadu dull gwahanol, a'n huchelgais yw gweddnewid sut yr ydych yn meddwl amdanom.

- *Bydd defnyddio data mesuryddion deallus yn ein galluogi i chwyldroi ein perthynas â'n cwsmeriaid drwy fod yn llawer mwy rhagweithiol.*
- *Byddwn yn defnyddio dulliau arloesol i leihau costau, i wella'r gwasanaeth, ac i osod y sylfeini ar gyfer rhwydwaith deallus.*

Mae ein rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod eisiau i ni:

Rheoli ein rhwydwaith sy'n heneiddio i gadw'r cyhoedd, ein staff a'n contractwyr yn ddiogel

Cafodd y rhan fwyaf o'n rhwydwaith ei adeiladu yn ystod y 1950-70au felly mae'n tynnu at ddiwedd ei oes weithredol. Byddwn yn parhau â'n rhaglen i adnewyddu ein hasedau dros sawl cam rheoli prisiau i leihau'r effaith ar filiau ein cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i arwain y diwydiant i reoli'r broses o adnewyddu ceblau diwedd bywyd mewn fflatiau uchel a thenementau.

Rydym ar y blaen yn y diwydiant wrth wneud yn siŵr bod hen linellau uwchben yn cyrraedd safonau modern o ran cliriad ac uchder. Byddwn yn sicrhau bod ein llinellau uwchben ar draws ffyrdd yn cyrraedd safonau modern erbyn 2015, ac ym mhob man arall erbyn 2020.

Lleihau nifer a hyd toriadau yn y cyflenwad

Mae ein cwsmeriaid yn mwynhau 30% yn llai o doriadau yn y cyflenwad na chyfartaledd y DU, gyda dibynadwyaeth sydd dros 99.999%. Erbyn 2023 rydym yn anelu at ostyngiad o 7% yn nifer y toriadau yng nghyflenwad cwsmeriaid, hyd y toriadau hynny 16%, a 25% yn yr amser y mae ein cwsmer cyfartalog heb drydan.

Gwella gwasanaeth cwsmeriaid

Ein nod yw arwain y diwydiant yn y gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir. Rydym wedi cyflwyno set gynhwysfawr o ymrwymiaidau i gwsmeriaid a byddwn yn talu lefelau uwch o iawndal os na allwn eu cyflawni.

Parhau i fuddsoddi i leihau toriadau yn y cyflenwad yn ystod stormydd mawr

Ers diwedd y 1990au rydym wedi ailadeiladu ac wedi clirio coed o fwy na 10% o'n llinellau foltedd uchel uwchben mewn ardaloedd gwledig, gan helpu i sicrhau gostyngiad o 75% yn y toriadau yn y cyflenwad yn ystod stormydd. Erbyn 2023 byddwn yn gwneud mwy na 25% o'n llinellau foltedd uchel uwchben yng nghefn gwlad yn fwy galluog i wrthsefyll stormydd.

Gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid nad ydynt yn cael gwasanaeth da

Mae nifer fach iawn o'n cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth sy'n waeth o lawer nag eraill. Byddwn yn parhau i wella gwasanaeth i gwsmeriaid nad ydynt yn cael gwasanaeth da ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill i helpu ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed.

Paratoi'r rhwydwaith ar gyfer technolegau carbon isel

Gyda tharged y DU ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn 34%, erbyn 2020, mae gan Gymru a'r Alban dargedau mwy uchelgeisiol o 40% a 42%. Bydd ein rhwydwaith yn 'barod am garbon isel' yn gynt na chyfartaledd y DU.

Sicrhau gwerth am arian

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau economaidd sydd ar ein holl gwsmeriaid. Ers i ni gyhoeddi ein cynllun drafft, mae pob elfen o'r cynllun wedi'i optimeiddio i'w wneud mor effeithlon â phosibl, gan ystyried effeithiau prisiau real, dadansoddiad cost a budd a meincnodi'r diwydiant. O ganlyniad rydym wedi lleihau ein costau rhagamcanol £700m o'i gymharu â Chynllun Busnes Drafft Mai 2013.

- *Cael gward ar orsymiau aneffeithlon is-gontractau*
- *Canfod cyfleoedd am gydlynw pellach*
- *Canfod cyfleoedd eraill i wneud arbedion*

- *Cynnwys cynhyrchiant parhaus o 1% y flwyddyn o log cyfansawdd, sy'n golygu bod rhagamcan ein costau 4.6% (£170M) yn is.*

O ganlyniad mae cost ein cynllun terfynol wedi gostwng o £5.9bn i £5.2bn Tra mae ymrwymadau ein hallbynnau wedi cynyddu a'n canlyniadau eilaidd wedi'u cynnal.

Mae hyn yn golygu wrth gymharu tebyg a thebyg, tra'n cynyddu ein hallbynnau ac ymrwymadau i gwsmeriaid, bydd ein busnes yn gwario mymryn yn llai na'r hyn a ganiateir yn DPCR5. Rydym yn credu bod y cynllun yn awr yn cynnig y gwerth gorau i'n cwsmeriaid presennol a'n cwsmeriaid yn y dyfodol.

Ein cynllun cyfan

Rydym yn bwriadu creu mwy na 2,500 o swyddi ar draws y gadwyn gyflenwi, gan fuddsoddi hyd at £90m i recriwtio a hyfforddi (bydd effaith hyn ar y cwsmer yn £60m ar ôl ystyried arbedion mewn manau eraill).

Mae rhagamcan ein costau o £5.2bn yn cynnwys £2.5bn i adnewyddu a chynnal ein rhwydwaith, £600m i ymdopi â defnydd cwsmeriaid o ynni yn y dyfodol, £1bn o weithgarwch ategol ac £1.1bn o gostau allanol gan gynnwys treth gorfforaeth y DU ac ardrethi busnes lleol.

Yr effaith ar filiau cwsmeriaid

Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan Ofgem yn dangos bod costau dosbarthu trydan yn cyfrif am 16% o fil trydan cyfartalog cwsmeriaid yn y DU.

Gan ddefnyddio cyfartaledd y trydan a ddefnyddir gan gwsmer yn y DU, sef 3,300kWh, fel sy'n ofynnol gan Ofgem:

- *Bydd ein cwsmeriaid yng Nghanolbarth a De'r Alban yn gweld gostyngiad o 8% yn eu biliau o £99 y flwyddyn i £91 y flwyddyn.*
- *Bydd ein cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr yn gweld gostyngiad o 12% o £126 y flwyddyn i £111 y flwyddyn.*

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar brisiau 12/13 a byddant yn amrywio'n ôl chwyddiant a'r trydan a ddefnyddir.

Casgliad


Rydym wedi llunio cynllun i ddiwallu anghenion ein rhanddeiliaid ac i weddnewid y ffordd rydych yn meddwl amdanom fel eich cwmni rhwydwaith trydan.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad wrth ddatblygu ein cynllun ac rydym yn awr yn eich annog i roi adborth i ni ar ein cynllun terfynol ac ar ein gwasanaeth yn gyffredinol.

Edrychwn ymlaen at roi mwy o'r newyddion diweddaraf i chi ar ein datblygiadau, a chlywed eich barn ar ein blaenoriaethau drwy'r gweithgareddau amrywiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y degawd nesaf.



Frank Mitchell

A man with grey hair, wearing a light purple short-sleeved shirt and dark trousers, sits on a dark blue leather sofa. He is looking down at a document held by a woman. The woman has dark hair and is wearing a black blazer and black trousers. She is also looking at the document. The room features a wooden display cabinet with glass doors containing white figurines, a floor lamp with multiple shades, and a window with white blinds in the background. The floor is covered with a pinkish carpet.

**Bydd biliau ein
cwsmeriaid, yn seiliedig
ar dreuliant cyfartalog
y DU, yn gostwng 8%
ar gyfartaledd yn
yr Alban a 12% yng
Nghymru a Lloegr.**

Crynodeb gweithredol

Ein cynllun busnes cyfan yn gryo

Mae'r bennod hon yn amlinellu ein gweledigaeth i weddnewid y ffordd rydych yn meddwl amdanom fel eich cwmni rhwydwaith trydan, ac mae'n cynnwys uchafbwyntiau'r cynllun.

Bydd £5.2bn o'n costau am y cyfnod 2015-23 yn cael eu gwario i gynnal diogelwch a pherfformiad y rhwydwaith, i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ynni ein cwsmeriaid yn y dyfodol, ac yn gwella cydnerthedd ein rhwydwaith ymhellach mewn stormydd. Mae elfennau arloesol ein cynllun wedi golygu gostyngiad o fwy na £100m yn ein costau rhagamcanol.

Rydym wedi pennu ymrwymiadau allbynnau pendant i gwsmeriaid, gan gyflwyno trefniadau gwirfoddol sy'n mynd ymhell na gofynion y rheolyddion.

Byddwn yn defnyddio mecanweithiau cymell i fuddsoddi ymhellach i gyflawni buddiannau pendant i gwsmeriaid.

Mae gostyngiad o £700m o'i gymharu â'n cynllun drafft a gyhoeddwyd fis Mai'n dangos ein hymrwymiad i gyflawni mewn modd effeithlon dros ben. Cafwyd prawf pellach o hyn yn ein pecyn ariannol arfaethedig sy'n amlwg yn taro cydbwysedd priodol o ran risg rhwng cwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Byddwn yn cyflawni hyn i gyd ar yr un pryd â sicrhau gostyngiad o 8% ym miliau domestig cyfartalog ein cwsmeriaid yng Nghanolbarth a De'r Alban a 12% yng Nghymru a Lloegr.

Yn y bennod hon:

- Cynllunio ar gyfer 2023 a thu hwnt
- Gwariant effeithlon
- Allbynnau
- Canlyniadau eilaidd
- Ariannu ein cynllun yn effeithlon
- Ein referniw a'r effaith ar y cwsmer
- Effaith ar filiau



Cynllunio ar gyfer 2023 a thu hwnt

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a'n hymrwymiad i weddnewid sut yr ydych yn edrych arnom fel eich cwmni rhwydwaith trydan.

Mae diwydiant ynni'r DU yn wynebu'r cyfnod mwyaf cyffrous mewn hanner canrif. Rydym yn cydnabod bod gan SP Energy Networks rôl holl bwysig i hwyluso'r newid i economi carbon isel ar adeg pan mae angen i ni adnewyddu nifer cynyddol o asedau sy'n dod at ddiwedd eu hoes.

Mae gan SP Energy Networks gyfle heb ei ail i chwarae rhan bwysig yng nghyfnod pontio'r DU i ynni carbon isel ac i helpu i lunio glasbrint y diwydiant am y 50 mlynedd nesaf.

Erbyn 2023 rydym yn bwriadu arwain y diwydiant drwy barhau i lynu wrth ein gwerthoedd sylfaenol, sef bod yn:

- *Gwmni sy'n rhoi pwyslais ar wasanaeth cwsmeriaid y mae ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn ymddiried ynddo.*
- *Cwmni peirianyddol sy'n gofalu am ei asedau ac sy'n cyrraedd safonau rhyngwladol o ran diogelwch.*
- *Cwmni sy'n denu ac sy'n datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol o'r cymunedau a wasanaethir gennym.*

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau economaidd y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu:

- *Rydym wedi meincnodi yn rhyngwladol i dargedu costau i fod ymhlith yr isaf yn y diwydiant.*
- *Rydym wedi pennu targed gwella cynhyrchaeth o 1% y flwyddyn a draws meysydd allweddol.*
- *Bydd camau arloesol yn ein cynlluniau'n arwain at fwy na £100m mewn buddiannau i gwsmeriaid.*
- *Rydym wedi gostwng costau £700m o'i gymharu â'n cynllun drafft a gyhoeddwyd fis Mai, ond wedi cynyddu ein hallbynnau arfaethedig.*

Bydd angen ymagwedd wahanol tuag at rwydwaith y dyfodol a'i ddefnyddwyr, a'n huchelgais yw gweddnewid sut yr ydych yn meddwl amdanom.

- *Bydd mesuryddion deallus yn ein galluogi i chwyldroi ein perthynas â'n cwsmeriaid drwy ganiatáu i ni fod yn llawer mwy rhagweithiol.*
- *Byddwn yn arloesi ymhellach i leihau costau, i wella'r gwasanaeth, ac i osod y sylfeini ar gyfer rhwydwaith deallus.*

Rydym wedi amlinellu cynllun i roi sylw i flaenoriaethau ein rhanddeiliaid:

- *Rheoli ein rhwydwaith sy'n heneiddio i gadw'r cyhoedd a'n staff yn ddiogel*
- *Gostyngiad o 25% yn yr amser heb gyflenwad i'n cwsmer cyfartalog. Ariennir hyn drwy gymhellion.*
- *Llai o gwsmeriaid yn cael eu heffeithio gan stormydd a safon wirfoddol i adfer y cyflenwad i gwsmeriaid o fewn 36 awr wedi hynny.*
- *Bod ymhlith y cwmnïau rhwydwaith sy'n perfformio orau o ran gwasanaeth cwsmeriaid. Talu iawndal ychwanegol yn wirfoddol os ydym yn methu.*
- *Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n cael gwasanaeth gwael a gwneud cyfraniad at roi sylw i faterion cymdeithasol ynni.*
- *Paratoi'r rhwydwaith ar gyfer technolegau carbon isel.*
- *Pecyn priodol ac effeithlon sy'n cynnig gwerth tymor hir i gwsmeriaid a rhanddeiliaid.*

Yn ychwanegol at ein cynllun busnes byddwn yn buddsoddi ymhellach i sicrhau gwerth i'r cwsmeriaid, wedi'i ariannu a'i wobrwyo drwy fecanwaith o gymhellion.

Gwariant effeithlon

Yn cynnwys effeithlonrwydd o 1.0% y flwyddyn


Cyfanswm £5.2bn

75% — £3.9bn

Busnes craidd traddodiadol

25% — £1.3bn

Costau newydd ac allanol



Mae 46% — £2.4bn o'n costau'n mynd yn uniongyrchol i reoli ein rhwydwaith sy'n heneiddio, gan gynnwys:

- Atgyweirio mwy na 180,000 o ddiffygion yn y rhwydwaith.
- Archwilio a chynnal 30,000 o is-orsafoddd, 70,000km o geblau tanddaear a 40,000km o linellau uwchben, gan gynnwys:
 - Cwblhau tua 3.5 miliwn o archwiliadau o asedau.
 - Torri coed sy'n rhy agos at fwy na 300,000 o rychwantau llinellau uwchben (diogelwch y cyhoedd).
 - Clirio coed oddi wrth 5000km o linellau uwchben (cydnheredd mewn stormydd).
 - Cynnal oddeutu o 900,000 eitemau o offer y rhwydwaith.
- Adnewyddu 30 o brif is-orsafoddd gyda phob un yn cyflenwi 19,000 o gwsmeriaid (ar gyfartaledd)
- Adnewyddu 84 o is-orsafoddd mawr gyda phob un yn cyflenwi 3,000 o gwsmeriaid (ar gyfartaledd)
- Ymestyn oes 84 o is-orsafoddd mawr gyda phob un yn cyflenwi 3,000 o gwsmeriaid (ar gyfartaledd)
- Adnewyddu mwy na 2,500 o is-orsafoddd bach gyda phob un yn cyflenwi hyd at 500 o gwsmeriaid

- Adnewyddu mwy na 250,000 o wasanaethau y tu mewn i gartrefi ac adeiladau cwsmeriaid.
- Gwneud 25% o'n rhwydwaith foltedd uchel 32% arall o'r rhwydwaith foltedd isel yn gadarn rhag stormydd.

Mae 4% — £0.2bn o'n costau di-graidd yn gysylltiedig â hwyluso mabwysiadu technolegau carbon isel erbyn 2023:

- Treialu arloesi rhwydwaith deallus
- Hwyluso cyflenwyr trydan i gyflwyno mesuryddion deallus a defnyddio'r data o'r mesuryddion.
- Galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio hyd at:
 - 620,000 o osodiadau paneli solar (19% o aelwydydd).
 - 310,000 o systemau gwresogi pwmp (10% o aelwydydd).
 - 130,000 o gerbydau trydan (6% o aelwydydd).

Mae 8% — £0.4bn o'n costau'n caniatáu i ni ymateb i ofynion ein cwsmeriaid yn y dyfodol:

- Uwchraddio 125 o is-orsafoddd mawr (pob un yn cyflenwi rhwng 1,000 ac 20,000 o gwsmeriaid) gan greu hyd at 500MW o gynhwysedd lleol ar gyfer anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol.
- Cysylltu hyd at 5GW o drydan adnewyddadwy newydd.

- Cysylltu hyd at 2.5GW o dai, cwsmeriaid masnachol a diwydiannol.

- Ymateb i dwf o 1% yn y llwyth.

Mae 21% — £1.1bn o'n costau'n gostau di-graidd eraill, gan gynnwys:

- Treth gorfforaeth a delir i Lywodraeth y DU
- Ardrethi busnes a delir i lywodraeth leol.
- Costau trawsyrru a delir i'r Grid Cenedlaethol.
- Costau pensiwn etifeddol.

Mae 19% — £1.0bn o'n costau'n weithgareddau peirianyddol a chymorth corfforaethol, gan gynnwys:

- Recriwtio a hyfforddi hyd at 100 o brentisiaid a graddedigion y flwyddyn.
- Rheoli prosiectau.
- Cerbydau ar gyfer ein staff.
- Ystafelloedd rheoli a chanolfannau galwadau.
- Dylunio a rheoli'r rhwydwaith.
- Rhedeg 34 o swyddfeydd a depos.

Mae 2% — £0.1bn o'n costau'n gysylltiedig ag Effeithiau Prisiau Real

- Barn economaidd annibynnol o'r cynnydd mewn costau uwchlaw'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

Allbynnau

Ein hymrwymiaidau i weddnewid sut yr ydych yn meddwl amdanom fel eich cwmni rhwydwaith trydan

Allbynnau

Ein Hallbynnau yw'r pethau hynny y mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn eu profi'n uniongyrchol ac yn eu gwerthfawrogi. Rydym wedi amlinellu ein pecyn allbynnau cynhwysfawr ym Mhennod 8 – Our outputs and incentives.

Uchafbwyntiau o'n chwe chategori o allbynnau

Maes Allbwn	Byddwn yn:
Diogelwch Lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â dosbarthu trydan	<ul style="list-style-type: none"> • Dim amser cyflogion yn cael ei golli o ganlyniad i anafiadau • Gweithio â contractwyr i sicrhau gostyngiad o 75% yn eu cyfraddau damweiniau • Cael gwared ar linellau 'isel' risg uchel gan gynnwys rhai sy'n croesi ffyrdd erbyn 2015 a'r gweddill i gyd erbyn 2020 • Parhau a'n dull blaengar o adnewyddu ceblau diwedd oes mewn fflatiau • Cynyddu ein rhaglenni addysg cymunedol helaeth
Dibynadwyedd ac Argaeledd Sicrhau bod ein rhwydwaith yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau eithafol a'i fod yn ddibynadwy mewn amodau arferol.	<ul style="list-style-type: none"> • Gostyngiad o 7% yn y nifer o weithiau mae cwsmeriaid yn colli eu cyflenwad • Gostyngiad o 16% yn hyd yr amser y mae'r cwsmeriaid hynny heb gyflenwad • Gostyngiad o 25% yn yr amser cyfartalog y mae pob cwsmer heb gyflenwad • Gwella gwasanaeth i 40% sy'n cael gwasanaeth gwael • Gwella gwasanaeth i 25% o'n cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf • Gostyngiad o 70% yn nifer y cwsmeriaid heb drydan am 12 awr erbyn 2016 a 100% erbyn 2023. • Talu taliadau Safon Warantedig dwbl, ac eithrio o ganlyniad i stormydd, pan fyddwn yn gwneud trefniadau eraill • Cyflwyno Safon Warantedig wirfoddol ar gyfer adfer y cyflenwad ar ôl stormydd
Yr Amgylchedd Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwarae ein rhan yn y broses o bontio i ynni carbon isel	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod newidyddion colled is i ostwng costau Cyflenwyr Trydan hyd at £60m dros y 50 mlynedd nesaf • Lleihau ôl troed carbon y busnes o flwyddyn i flwyddyn • Gostwng gollyngiadau olew ceblau 50% • Prynu offer sy'n rhagori ar safonau rhyngwladol yr IEC ar gyfer cyfraddau gollyngiadau nwyon insiwleiddio SF6 • Tanddaearu 85km o linellau uwchben mewn ardaloedd o bwys gweledol
Cysylltiadau Darparu gwasanaeth rhagorol i bob cwsmer sydd eisieu cysylltiad newydd	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i hwyluso cystadleuaeth flaengar yn y diwydiant yn ardaloedd ein rhwydwaith • Gwella ein sianelau cyfathrebu â chwsmeriaid • Gwella argaeledd a thryloywder gwybodaeth a chostau cysylltu • Cysylltu ein cwsmeriaid newydd o fewn amserlenni sydd ymhlith y gorau yn y diwydiant • Talu iawndal dwbl i gwsmeriaid am unrhyw fethiant yn y Safon Warantedig
Bodlonrwydd Cwsmeriaid Gwella'n barhaus	<ul style="list-style-type: none"> • Gwelliant o 20% yn ein sgoriau bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol erbyn 2023 • Peidio byth â datgysylltu galwadau'n orfodol, rhoi'r dewis bob amser i siarad ag unigolyn • Cyfathrebu'n rhagweithiol â chwsmeriaid ac mewn ffyrdd a ffefrir ganddynt • Talu iawndal o £10 os nad ydym yn gweithredu ar gam y cytunwyd arno o ganlyniad i'ch ymholiad. • Parhau i gynnig prydau poeth a llety i gwsmeriaid agored i niwed ar ôl 12 awr mewn achosion neilltuoel, ac o fewn 48 awr i bob cwsmer.*
Rhwymedigaethau cymdeithasol Cydnabod a diwallu anghenion cwsmeriaid agored i niwed	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR) • Cysylltu â chwsmeriaid sydd wedi cofrestru â'r PSR bob dwy flynedd (lleiafswm) • Cysylltu â chwsmeriaid sydd wedi cofrestru â'r PSR yn amlach cyn toriadau wedi'u trefnu ac yn ystod toriadau brys yn y cyflenwad • Hyfforddi ein pobl i adnabod a delio mewn modd sensitif â chwsmeriaid agored i niwed • Sefydlu cronfa rhwydwaith benodedig o fewn fframwaith yr Ymddiriedolaeth Pobl Ynni bresennol i dargedu cynlluniau i helpu cwsmeriaid agored i niwed

Canlyniadau eilaidd

Cynnal diogelwch a pherfformiad ein rhwydwaith yn effeithlon

Mae canlyniadau eilaidd yn weithgareddau allweddol sy'n rhan o'n contract rheoleiddio ac maent yn cynnwys rheoli iechyd ein hasedau (Mynegai Iechyd) a'r broses gymharol o lwytho ein rhwydwaith (Mynegai Llwyth).

Mynegai Iechyd

Ein cynllun yw atal dirywiad ein rhwydwaith yn ystod y ddau ddegawd nesaf, a rheoli risg gynyddol yn ystod y cyfnod cyfamserol drwy:

- *Raglenni newydd i adnewyddu asedau er mwyn ymestyn eu hoes i gyd-fynd ag asedau newydd.*
- *Mwy o archwiliadau a gwaith cynnal a chadw ymwithiol ar gyfer asesu sy'n wynebu'r risg fwyaf o fethu*
- *Cyflwyno trefniadau monitro ar-lein mewn is-orsafoedd mawr i ganfod methiannau posibl cyn iddynt ddigwydd*



Mae ein cynlluniau buddsoddi i reoli ein rhwydwaith wedi eu hamlinellu mewn manylder ym Mhennod 9 – Our expenditure forecast a cheir manylion am ein canlyniadau eilaidd yn Atodiad 2.2.

Mynegai Llwyth


Bydd cynyddu'r llwyth ar ein rhwydwaith yn sbarduno atgyfnerthiad pan fydd yn cyrraedd lefel benodol. Ein cynllun, sydd wedi denu cefnogaeth gref ein rhanddeiliaid, yw mabwysiadu pwynt sbarduno is ar gyfer atgyfnerthu ein rhwydwaith. Nid yw'r gostyngiad hwn o 20% (ceir rhagor o fanylion am y gostyngiad hwn o 20% ym Mhennod 5— Meeting our challenges ac ym Mhennod 9 — Our expenditure forecast), yn mynd cyn belled â rhai dosbarthwyr trydan eraill, ond credwn ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cost a risg ar gyfer cwsmeriaid heddiw a'r dyfodol.

Ceir mwy o fanylion am ein buddsoddiadau arfaethedig mewn asedau a'u heffaith ar y Mynegeion Iechyd a Llwyth ym Mhennod 9 — Our expenditure forecast (insert link) ac fe'i hamlinellir mewn mwy o fanylder yn Atodiad 2.2 — Health Index Graphs (sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon) sy'n dangos yr effaith ar draws ein hystod o gategoriâu asedau. Mae ein Mapiau Parth yn Atodiad 2.9 yn dangos ein cynlluniau buddsoddi mewn fformat daearyddol.


Torwyr cylchedau 33kV



Newid Mynegai Llwyth SPD



Newid Mynegai Llwyth SPM



Ariannu ein cynllun yn effeithlon

Mae ein cynlluniau ariannu'n effeithlon ac yn taro cydbwysedd priodol rhwng risg a gwobrwyo rhwng rhanddeiliaid

Mewn unrhyw adolygiad rheoli prisiau mae'r rheoleiddiwr yn caniatáu i weithredwyr rhwydweithiau gasglu arian gan gwsmeriaid er mwyn talu difidendau a chostau llog. Mae'r rhain yn cyfrif am oddeutu 20% o'n taliadau i gyflenwyr (3% o filiau cwsmeriaid).

Mae Ofgem yn herio gweithredwyr rhwydweithiau i brofi bod eu cynlluniau ariannu'n rhai effeithlon. Mewn geiriau eraill, rhaid i ni ddangos ein bod yn gofyn i'n cwsmeriaid dalu digon, ond dim mwy na'r hyn sydd ei angen arnom, i ddenu ac i gadw arian gan fuddsoddwyr. Os na chawn ni ddigon, ni fyddwn yn gallu sicrhau digon o arian gan fuddsoddwyr i'n galluogi i gynnal y rhwydwaith. Os cawn ormod, bydd ein cyfranddalwyr yn cael mwy o daliadau na'r hyn maent yn ei haeddu. Nid yw'r naill na'r llall o fudd i'n cwsmeriaid.

Rydym wedi paratoi cynllun ariannu effeithlon sy'n ateb gofynion yr her hon. Cafodd Scottish Power Transmission ei roi ar y 'llwybr carlam' yn yr adolygiad RII0-T1. Rydym wedi dysgu yn sgil y broses honno ac wedi gwella ansawdd a thryloywder ein tystiolaeth i ddangos effeithlonrwydd ein cynllun ariannu.

Cost dyledion (Y gost o fenthycia i ariannu buddsoddiadau) – wedi'u mynegeo

Mae Ofgem yn rhagnodi mecanwaith sy'n cysylltu hyn â mynegai. Diben hyn yw sicrhau y bydd cwsmeriaid yn talu costau dyledion effeithlon yn unig. Mae ein cynllun ariannu'n defnyddio ôl-gyfartaledd 10 mlynedd syml arfaethedig Ofgem ar gyfer y mynegai heb ei gymhwyso.

Cost ecwiti (Y gost o ariannu buddsoddiadau o ecwiti cyfranddalwyr) — 6.7%

Rydym wedi gwneud dadansoddiad manwl sy'n ystyried modelau damcaniaethol, tystiolaeth o'r farchnad, barn rhanddeiliaid a chynsail perthnasol y rheoleiddiwr. Rydym hefyd wedi ystyried risg, ar ôl lliniaru o fecanweithiau ansicr.

Gerio tybiedig (Cyfran y benthyciadau sy'n cael eu hariannu drwy fenthycia) — 65%

Mae ein gwaith ar bennu'r gerio tybiannol yn ystyried y rhyngweithio rhwng ansefydlogrwydd llif arian a chost ecwiti, gan ystyried unwaith eto'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil y pecyn cyffredinol a'u heffaith ar yr enillion ar ecwiti rheoleiddiol.

Paramedrau a pholisïau ariannu eraill

Mae ein cynllun yn adlewyrchu polisïau rhagnodol Ofgem yn llawn, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i driniaeth pensiynau a threth.

Gallu ariannol

Rydym wedi rhoi prawf i weld a yw ein cynllun ariannol yn effeithlon drwy gynnal asesiad tebyg i'r hyn a ddefnyddir gan asiantaethau asesu statws credyd gan gynnwys ffactorau ansoddol megis yr amgylchedd rheoleiddiol. Rydym wedi targedu statws credyd sy'n gydnaws â'r hyn sydd wedi'i ymgorffori yng nghost mynegai dyled ac ag ymrwymiad ein trwydded i gynnal statws credyd ar raddfa fuddsoddi. Nid ydym wedi cynnwys cymwysiaid ariannol o dan ein tybiaethau llwybr carlam.

Rydym wedi pennu dull ariannu ac rydym wedi rhoi dadansoddiad ategol ym Mhennod 12 — Financing our plans efficiently ac yn Atodiad 3.1 — Efficiently financing our plans and our detailed financeability scenarios..


Paramedr	Dosbarthu Trydan DPCR5 2009	SPEN Gorffennaf 2013
Cost y Dyled	3.6%	wedi'i Mynegeo
Cost Ecwiti	6.7%	6.7%
Gerio Tybiannol	65%	65%
Arenillion Difidend	5%	5%
Cyfalafu	85%	80%
Bywyd Asedau	20 mlynedd	45 mlynedd ar gyfer buddsoddiadau newydd
Gallu Ariannol	Graddfa Fuddsoddi	Graddfa Fuddsoddi

Ein refeniw a'r effaith ar y cwsmer

Dadansoddiad o fil cyfartalog cwsmer yn y DU

- 58% — Ynni cyfanwerthol, costau cyflenwi a maint yr elw
- 16% — Taliadau dosbarthu
- 11% — Taliadau amgylcheddol
- 5% — Costau eraill
- 5% — TAW
- 4% — Taliadau trawsyrru

Taflen ffeithiau biliau cwsmeriaid
Ofgem Ionawr 2013



Ein costau a biliau trydan cwsmeriaid


Mae Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am wahanol elfennau biliau cwsmeriaid. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod costau dosbarthu trydan yn cyfrif am gyfartaledd 16% o fil trydan cwsmeriaid ledled y DU.

Refeniw sylfaen a ganiateir yr ydym yn eu codi ar gyflenwyr


Mae effaith ein cynllun a chanlyniadau modelu ariannol yn arwain at y proffiliau refeniw sylfaen canlynol a ganiateir ar gyfer ein dau gwmni rhwydwaith:

Bydd cyfanswm y refeniw a ganiateir i ni ei adennill gan gyflenwyr yn amodol ar ganlyniad y setliad RIIO ED1 gan Ofgem a'n perfformiad yn erbyn y cymhellion a amlinellwyd gennym yn gynharach.

Refeniw blynyddol – SPD (£m prisiau 2012/13)



Refeniw blynyddol – SPM (£m prisiau 2012/13)



Effaith ar Filiau

Beth fydd ein cynlluniau drafft yn ei olygu i'n cwsmeriaid?

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sydd ar gwsmeriaid ac o'r ffactorau eraill sy'n cynyddu biliau trydan. Rydym wedi creu ein cynlluniau buddsoddi i gynnal diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith tra'n cadw costau mor isel â phosibl, ac rydym wedi cynyddu ein cynlluniau o'r pwynt hwn pan fydd hynny wedi'i gadarnhau drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran cysyniad a pharodrwydd i dalu.

Er mwyn gallu cymharu cwmnïau rhwydwaith mae'n ofynnol ein bod yn cyflwyno'r effaith ar filiau fel symudiad sy'n gymharol â chostau nodweddiadol 2014-15 a defnyddio treuliant domestig cyfartalog y DU o 3,300 kWh.

Rydym hefyd wedi cynnwys taliadau cyfartalog cwsmeriaid domestig 2010-15 (wedi'u diweddarau i sylfaen prisiau 2012-13) sy'n gydnaws â'r wybodaeth yn ein digwyddiadau i randdeiliaid.

Bydd y cwsmer domestig cyfartalog ar Lannau Mersi, Swydd, Gaer, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig (SPM) yn gweld ein helpen ni o'u bil yn gostwng 12% o £126 y flwyddyn i £111 y flwyddyn ar gyfartaledd (2015-2023).

Bydd y cwsmer domestig cyfartalog yng Nghanolbarth a De'r Alban (SPD yn gweld ein helpen ni o'u bil yn gostwng 8% o £99 y flwyddyn i £91 y flwyddyn ar gyfartaledd (2015-2023).

Mae'r ffigurau hyn wedi'u mynegi yn ôl prisiau 12/13 a byddant yn amrywio'n ôl chwyddiant a threuliant.


Pam mae bil SPM yn uwch?

Mae dau reswm am hyn, yn gyntaf mae hyn o ganlyniad i wahaniaethau rhwng yr adegau pan osodwyd asedau yn SPD a SPM.

Yn ail, mae ein rhwydwaith dosbarthu yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys y rhwydwaith 132kV, yn yr Alban mae'r rhan hon o'r rhwydwaith yn eiddo i'r cwmnïau Trawsyrro ac felly mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y taliadau mae cwsmeriaid SPD yn eu cael drwy eu cyflenwr ynni.


Bydd biliau ein cwsmeriaid, yn seiliedig ar dreuliant cyfartalog y DU, yn gostwng 8% ar gyfartaledd yn yr Alban a 12% yng Nghymru a Lloegr.

Bil domestig cyfartalog – SPD



*Yn seiliedig ar dreuliant cyfartalog y DU

Bil domestig cyfartalog – SPM



*Yn seiliedig ar dreuliant cyfartalog y DU

Prisiau SPD 12/13	Bil cyfartalog 2010-2015	Bil cyfartalog 2015-2023	Newid %
Busnesau bach	£399	£381	-5%
Busnesau canolig	£8,993	£8,520	-5%
Busnesau mawr	£53,645	£51,113	-5%
Heb fesurydd	N/A	N/A	-5%

Prisiau SPM 12/13	Bil cyfartalog 2010-2015	Bil cyfartalog 2015-2023	Newid %
Busnesau bach	£403	£387	-4%
Busnesau canolig	£6,864	£6,577	-4%
Busnesau mawr	£44,056	£42,238	-4%
Heb fesurydd	N/A	N/A	-4%

